**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL (MEMORANDWM RHIF 6)**

**Bil Caffael**

1. Gosodir y memorandwm cydsyniad deddfwriaethol (LCM) hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS29 yn nodi bod rhaid gosod LCM gerbron Senedd Cymru os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud "darpariaeth berthnasol" (hynny yw darpariaeth mewn perthynas â Chymru at unrhyw ddiben o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, neu sy'n addasu cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru) neu os bydd Mesur Seneddol y DU, trwy welliannau a gyflwynir gan un o Weinidogion y Goron neu a gyhoeddir gydag enw un o Weinidogion y Goron neu a gyhoeddir gydag enw un o Weinidogion y Goron yn eu cefnogi, yn y naill Dŷ neu'r llall, sy'n gwneud (neu y byddai'n gwneud) darpariaeth berthnasol am y tro cyntaf neu y tu hwnt i derfynau cydsyniad sydd eisoes wedi'i roi gan Senedd Cymru.

2. Cyflwynwyd y Bil Caffael ("y Bil") gerbron Senedd y DU yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 11 Mai 2022 a gosodais LCM ar 9 Mehefin 2022 yn seiliedig ar y Bil fel y'i cyflwynwyd.

3. Ar 11 Gorffennaf, gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 2), ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 4 Gorffennaf ac a barodd tan 26 Hydref.

4. Ar 6 Gorffennaf, gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 3), ar ôl i Lywodraeth y DU gyflwyno gwelliannau i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 28 Gorffennaf ac a barodd tan 30 Hydref.

5. Ar 19 Rhagfyr, gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 4), yn dilyn gwelliannau anllywodraethol y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi a ddechreuodd ar 28 Tachwedd ac a barodd tan 30 Tachwedd.

6. Ar 6 Chwefror 2023, gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 5), yn dilyn gwelliannau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin a ddechreuodd ar 31 Ionawr ac a barodd tan 21 Chwefror 2023.

7. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin a ddechreuodd ar 13 Mehefin 2023. Cytunwyd ar yr holl welliannau a gyflwynwyd gan y Llywodraeth, sef NC15 a gwelliannau 19 – 59 ac maent ar gael i'w gweld yn:

https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0218/amend/procurement_rm_pbc_0125.pdf.

8. Mae'r cymalau y cyfeirir atynt yn yr LCM atodol hwn fel y'u nodir yn y Bil fel y'i diwygiwyd yn y Pwyllgor Biliau Cyhoeddus a gyhoeddwyd ar 24 Chwefror 2023. Mae'r fersiwn hon o'r Bil i'w gweld yn: https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill.pdf

**Amcan(ion) Polisi**

9. Amcanion polisi Lywodraeth y DU a nodwyd ar gyfer y Bil yw:

- cyflymu a symleiddio prosesau caffael cyhoeddus
- sicrhau bod gwerth am arian yn ganolog i'r broses
- creu mwy o gyfleoedd i fusnesau bach a mentrau cymdeithasol arloesi ym maes darparu gwasanaethau cyhoeddus

**Crynodeb o'r Bil**

10. Noddir y Bil gan Swyddfa'r Cabinet (CO).

11. Diben y Bil yw cyflwyno deddfwriaeth ddiwygiedig ar gyfer y prosesau a'r gweithdrefnau sy'n rheoli caffael cyhoeddus. Bydd yn diwygio'r gyfraith gaffael bresennol (gan gynnwys diddymu Rheoliadau Contractau Cyhoeddus 2015) sy'n deillio o Gyfarwyddebau'r UE.

12. Mae'r Bil yn rhyngweithio â deddfwriaeth arall, sef y Ddeddf Partneriaethau Cymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) (Deddf SPPP) y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ar 24 Mai 2023, Bil Caffael Gwasanaeth Iechyd (Cymru) a Deddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd) 2023 y rhoddwyd Cydsyniad Brenhinol iddi ar 23 Mawrth 2023. Gwrthododd Llywodraeth Cymru roi ei chydsyniad i'r Ddeddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd) trwy Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar 31 Ionawr 2023. Caiff y Ddeddf ei diddymu gan y Bil Caffael, felly hefyd y diwygiadau i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a wneir gan Deddf Masnach (Awstralia a Seland Newydd) 2023.

13. Mae'r maes caffael yn eithaf cymhleth yn ei ymwneud â chyrff cyhoeddus. Felly, mae'r ddogfen hon yn defnyddio'r cyfeiriadau canlynol er sicrhau eglurder:

- 'Awdurdodau Contractio' (ACau) - pob corff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Bil
- 'Awdurdodau Datganoledig Cymru' (ADCau) - fel y'u diffinnir gan adran 157A o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 ("DLlC")

- 'Awdurdodau Contractio Cymru' (ACCau) - yr awdurdodau contractio yng Nghymru sy'n ddarostyngedig i'r Bil (cyfeirir atynt fel "devolved Welsh authorities" yn y Bil ei hun) ac y mae'r pwerau a'r dyletswyddau perthnasol a roddwyd i Weinidogion Cymru o dan y Bil yn gymwys iddynt.

**Y diweddaraf ers cyhoeddi'r LCM atodol (Memorandwm Rhif 5) a osodwyd ar 6 Chwefror 2023**

14. Gosodais LCM atodol (Memorandwm Rhif 5) ar 6 Chwefror. Roedd yn cynnwys gwelliannau'r Llywodraeth y cytunwyd arnynt yng Nghyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin, gyda'r mwyafrif ohonynt yn gwneud darpariaeth sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

15. Cadarnhaodd Memorandwm Rhif 5 fy mod yn fodlon argymell rhoi cydsyniad i elfennau caffael craidd y Bil sy'n cynrychioli rhan helaethaf y Bil. Fodd bynnag, rwy'n argymell gwrthod rhoi cydsyniad i rannau'r Bil sy'n ymwneud â masnach ryngwladol.

16. Cafwyd trafodaeth a phleidlais ar ddau Gynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Caffael yn Senedd Cymru ar 28 Mawrth. Cytunodd Senedd Cymru mai dim ond y darpariaethau yng nghynnig 1 y dylai Senedd y DU eu hystyried,. Ni chafodd y darpariaethau yng nghynnig 2 eu cymeradwyo. Roedd darpariaethau yng nghynnig 2 oedd yn gysylltiedig â chytundebau rhyngwladol, sef "cyflenwyr gwladwriaeth o dan gytundeb", "anghydfodau masnach" a darpariaethau cysylltiedig yn Atodlen 9. Hysbyswyd Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin am y penderfyniad ar 29 Mawrth 2023 https://publications.parliament.uk/pa/bills/cbill/58-03/0249/WalesProcLegCon.pdf

17. Cyflwynodd Llywodraeth y DU welliannau pellach i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin ar 7 Mehefin. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd ar 15 a 21 Tachwedd, i'r graddau eu bod yn gwneud darpariaeth sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, yn destun yr LCM atodol hwn. Mae **Atodiad A** yn cynnwys tabl sy'n crynhoi'r gwelliannau.

**Darpariaethau a gyflwynwyd gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng nghyfnod Adrodd Tŷ'r Arglwyddi y mae angen cydsyniad ar eu cyfer**

18. O'r gwelliannau sydd wedi'u cyflwyno gan Lywodraeth y DU i'w hystyried yng Nghyfnod Adrodd Tŷ'r Cyffredin, ystyrir bod y gwelliannau a restrir

isod at ddiben sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru ac felly'n "ddarpariaethau perthnasol" at ddibenion RhS 29.

**Gwelliannau a gyflwynwyd ar 7 Mehefin 2023**

18.1. **Cadw Cofnodion (cymal newydd ar ôl cymal 97 ac 1 gwelliant i gymal 97)**

Mae gwelliant NC15 yn gymal newydd a fyddai'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau contractio gadw cofnodion i egluro penderfyniadau a wneir at ddiben dyfarnu contract cyhoeddus neu ymrwymo i gontract cyhoeddus a chofnodion o'r cyfathrebu â chyflenwyr cyn ymrwymo i'r contract. Yn y ddau achos, byddant yn ddarostyngedig i derfynau amser.

Mae gwelliant 52 yn ganlyniadol ar ddarpariaeth debyg sy'n cael ei gwneud yng ngwelliant NC15.

18.2 **Newid i Ddyfarniad Uniongyrchol (3 gwelliant i gymal 43)**

Byddai gwelliant 21 yn golygu na chaiff awdurdod contractio ddibynnu ar gymal 19(3)(d) i gyfiawnhau newid i ddyfarniad uniongyrchol, hynny am fod y cyfiawnhad yn 19(3)(d) yn ehangach nag yn 43(2)(e) sy'n gofyn bod angen i gyflenwr fod wedi torri gofyniad gweithdrefnol mewn ffordd "sylweddol". Byddai 19(3)(d) yn caniatáu o hyd i awdurdodau contractio anwybyddu tendr tra byddai cymal 43(2)(e) yn caniatáu newid i ddyfarniad uniongyrchol cyn belled â bod y tramgwydd yn un "sylweddol".

Byddai gwelliant 22 yn golygu y byddai'n rhaid i awdurdod contractio gymhwyso rheolau cymal 19 mewn perthynas â thendrau anarferol o isel cyn dibynnu ar y ffaith honno i newid i ddyfarniad uniongyrchol.

Byddai gwelliant 23 yn adlewyrchu'r ffaith y ceir rhai gofynion gweithdrefnol mewn dogfennau tendro cysylltiedig yn hytrach nag yn yr hysbysiad tendro yn unig.

18.3 **Prif Ddangosyddion Perfformiad (2 welliant i gymal 52)**

Mae gwelliant 24 yn ganlyniadol ar welliant 25 a byddai'n dileu'r gofyniad i gyhoeddi prif ddangosyddion perfformiad cyn ymrwymo i gontract cyhoeddus.

Mae gwelliant 25 yn gysylltiedig â gwelliant 24 a byddai'n ei gwneud yn ofynnol cyhoeddi prif ddangosyddion perfformiad, ond nid o reidrwydd cyn ymrwymo i'r contract – câi darpariaeth arall ynghylch cyhoeddi ei gwneud mewn rheoliadau o dan gymal 95.

### 18.4 Hawl i gyflenwyr (gwelliant i gynmal 62)

Mae Gwelliant 38 yn ganlyniadol ar gymalau newydd 63 a 65 a ychwanegwyd yn y Pwyllgor gan roi mwy o hawliau i gyflenwyr sydd wedi’u rhoi ar y rhestr wahardd.

### 18.5 Diogelwch Cenedlaethol – gwaharddiadau oherwydd diogelwch cenedlaethol sy’n benodol i gyd-destun

O dan y Bil fel y mae wedi'i ddrafftio, mae diogelwch cenedlaethol yn sail dros wahardd yn ôl disgresiwn, sy'n golygu y gall awdurdod contractio eithrio cyflenwr, yn ôl ei ddisgresiwn, os yw’n credu bod y cyflenwr yn fygythiad i ddiogelwch cenedlaethol, er bod yn rhaid hysbysu Gweinidog o'r Goron o'r bwriad i eithrio cyflenwr am y rheswm hwn a rhaid i’r Gweinidog gytuno y dylid eithrio’r cyflenwr.

Byddai gwelliant 57 yn ychwanegu sail gwahardd gorfodol newydd i Atodlen 6 a fyddai'n caniatáu i Weinidog y Goron, yn dilyn ymchwiliad o dan gymal 60 gan awdurdod priodol (a allai gynnwys Gweinidogion Cymru), roi cyflenwr ar y rhestr waharddiadau ar sail orfodol am resymau diogelwch cenedlaethol ond dim ond ar gyfer mathau penodol o waith, gwasanaethau neu wasanaethau. Er enghraifft, gellir rhoi cyflenwr ar y rhestr waharddiadau ar gyfer contractau sy'n darparu offer gwyliadwriaeth ond gallai rhan arall o'u busnes ddarparu gwasanaethau sy'n gysylltiedig â biotechnoleg ac felly byddent yn cael gwneud cais am gontractau sy'n ymwneud â biotechnoleg. Yn yr un modd, gall y cofnod hefyd, neu fel dewis arall, nodi bod y cyflenwr wedi'i eithrio rhag contractau sy'n ymwneud â lleoliadau neu safleoedd penodol.

Nid yw awdurdodau contractio yn cael dibynnu ar y sail eithrio gorfodol newydd yn unig i wahardd caffael oddi wrth gyflenwyr am y rhesymau hyn. Dim ond ar ôl ymchwiliad gan awdurdod priodol a phenderfyniad gan Weinidog y Goron i roi cyflenwr ar y rhestr gwaharddiadau y caiff cyflenwr fod yn gyflenwr sydd wedi’i eithrio.

Effaith y gwelliannau fydd y cymryd y disgresiwn oddi ar awdurdodau contractio ynghylch gwaharddiadau lle mae cyflenwr yn fygythiad i gontractau penodol gan drwy hynny leihau'r risg y caiff cyflenwr fod yn rhan o broses gaffael pan na ddylai fod.

Mae’r gwelliannau canlynol naill ai yn ganlyniadol i welliant 57 neu’n gysylltiedig ag ef:

Gwelliannau 28, 32, 36, 37, 39 i 45, 47, 48 i 51 a 58

- Byddai gwelliant 28 yn newid cymal 57 o ganlyniad i welliant 57.

- Byddai gwelliant 32 yn newid cymal 59 gan ei gwneud yn ofynnol i awdurdod contractio hysbysu'r awdurdod priodol os yw’n eithrio cyflenwr am fod y cyflenwr ar y rhestr waharddiadau oherwydd y sail newydd a ychwanegir gan welliant 57.
- Byddai gwelliant 36 yn newid cymal 61 gan sicrhau bod adroddiadau'r ymchwiliad yn disgrifio’r contractau y bydd cyflenwr yn gyflenwr sydd wedi’i eithrio rhag eu cyflenwi oherwydd y sail a ychwanegir gan welliant 57 ac yn egluro y gellid paratoi'r adroddiad a'i gyhoeddi cyn gwneud cofnod.
- Byddai gwelliant 37 yn newid cymal 62 gan sicrhau y caiff y rhestr waharddiadau ddisgrifio’r contractau y bydd y cyflenwr yn gyflenwr sydd wedi’i eithrio rhag eu cyflenwi oherwydd y sail a ychwanegir gan welliant 57.
- Byddai gwelliant 39 yn gwneud newid arall i gymal 62 gan sicrhau y caiff Gweinidog y Goron ddileu disgrifiadau o rai contractau o gofnod cyflenwr sy'n gyflenwr y gellir ei eithrio oherwydd y sail a ychwanegir gan welliant 57 heb ddileu'r cofnod cyfan.
- Mae gwelliannau 40 a 41 yn gwneud newidiadau eraill i gymal 62 o ganlyniad i welliannau 37 a 39.
- Byddai gwelliant 42 yn newid cymal 62 i sicrhau cyfeiriadau cyson at "ddileu neu ddiwygio cofnodion" (yn unol â gwelliannau eraill y Llywodraeth i'r cymal hwn).
- Byddai gwelliant 43 yn gwneud newid arall i gymal 62 gan ei gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron ddileu disgrifiad o gontractau oddi ar restr waharddiadau os yw'r Gweinidog yn fodlon nad yw'r sail a ychwanegir gan welliant 57 yn gymwys iddynt.
- Mae gwelliannau 44 a 45 yn newid cymalau 62 a 64 sy'n ganlyniadol ar welliannau 39 a 43.
- Byddai gwelliant 47 yn newid cymal 65 gan ganiatáu i gyflenwyr herio eu bod yn gyflenwyr sydd wedi’u rhag cyflenwi contractau penodol oherwydd y sail a ychwanegwyd gan welliant 57 (yn lle gorfod herio'r cofnod cyfan).
- Byddai gwelliannau 48, 49 a 50 yn gwneud newidiadau canlyniadol pellach i gymal 65.
- Byddai gwelliant 51 yn newid cymal 79 a fyddai'n golygu, fel gyda'r sail eithrio diogelwch cenedlaethol bresennol ym mharagraff 14 o Atodlen 7, y byddai angen i awdurdod contractio perthnasol hysbysu Gweinidog y Goron cyn terfynu contract gan ddibynnu ar y sail gwahardd newydd a ychwanegir gan welliant 57.
- Byddai gwelliant 58 yn newid para 43 o Atodlen 6 o ganlyniad i welliant 57.

## 18.6 **Diogelwch cenedlaethol – Dyletswydd i gadw golwg**

Byddai gwelliant 34 yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron gadw golwg a ddylid ymchwilio i gyflenwyr neu isgontractwyr penodol o dan gymal 60 (ymchwilio i gyflenwr: rhesymau gwahardd), gan ystyried y ffaith y gallai awdurdodau contractio, heb yn wybod iddynt, ddyfarnu contractau cyhoeddus

i gyflenwyr neu isgontractwyr y gellir eu heithrio oherwydd paragraff 14 o Atodlen 7 (bygythiad i ddiogelwch cenedlaethol).

18.7 **Gwelliannau eraill sy'n ymwneud â gwahardd a gwaharddiadau**

- Byddai gwelliannau 26 a 27 yn newid cymal 57 i'w gwneud yn glir bod yn rhaid i awdurdod contractio fod yn fodlon nad yw'r amgylchiadau sy'n arwain at eithrio yn parhau - hynny yw, nid yw'n amddiffyniad dweud nad ydynt erioed wedi dod i ben ac felly na allant ddigwydd eto.
- Byddai gwelliannau 29 a 30 yn newid cymal 58 o ganlyniad i welliannau 26 a 27.
- Byddai gwelliant 31 yn newid cymal 59 a fyddai'n egluro y byddai angen i awdurdod contractio hysbysu'r awdurdod priodol dim ond os yw'n eithrio cyflenwr ar sail ei farn ei hun (yn hytrach na'r rhestr waharddiadau).
- Pan fydd Gweinidogion Cymru wedi cynnal ymchwiliad o dan gymal 60 gallant gyfeirio'r achos at Weinidog y Goron i'r Gweinidog ystyried a ddylid ychwanegu cofnod am gyflenwr at y rhestr waharddiadau. Byddai gwelliant 33 yn newid cymal 60 i egluro mai diben ymchwiliadau yw ystyried a ellid ychwanegu cofnod am gyflenwr at y rhestr waharddiadau. Bydd ei angen er mwyn ei gwneud yn glir nad oes angen ymchwiliadau at unrhyw ddibenion eraill.
- Byddai gwelliant 35 yn egluro mai diben ymchwiliadau o dan gymal 60 yw ystyried a ellid rhoi cyflenwr ar y rhestr waharddiadau, yn hytrach na'i gysylltu o bosibl â chais o dan gymal 64.
- Byddai gwelliant 46 yn newid cymal 64 gan ei gwneud yn ofynnol i Weinidog y Goron, ar ôl ystyried cais gan gyflenwr i ddileu neu adolygu cofnod ar y rhestr waharddiadau, i hysbysu'r cyflenwr am benderfyniad y Gweinidog a rhoi rhesymau dros y penderfyniad.
- Byddai gwelliant 55 yn newid cymal 112 gan sicrhau y gall un o Weinidogion y Goron gynnal ymchwiliadau gwahardd a rhoi cyflenwr ar y rhestr waharddiadau at ddiben Awdurdodau Contractio Cymru ac awdurdodau Gogledd Iwerddon sydd wedi'u trosglwyddo. Mae'r gwelliant hwn yn datrys mater a nodwyd yn y Bil sy'n ymwneud â'r drefn wahardd a sut y bydd yn gweithredu'n llwyddiannus ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Nid yw'r gwelliant yn effeithio ar allu Gweinidogion Cymru i gynnal ymchwiliadau gwahardd at ddiben rheoleiddio Awdurdodau Contractio Cymru. Dylid nodi y byddai gwelliant 53 yn diwygio cymal 110 er mwyn creu pŵer cyfatebol i Weinidogion Cymru gynnal ymchwiliadau gwahardd at ddiben rheoleiddio awdurdodau contractio nad ydynt yn Awdurdodau Contractio Cymru. Gyda'i gilydd, bydd y gwelliannau hyn yn sicrhau bod yna drefn wahardd gydgysylltiedig sy'n cydnabod y gall ymchwiliadau gwahardd arwain at benderfyniad i roi enw'r cyflenwr ar y rhestr waharddiadau a fydd yn cael effaith ar yr holl awdurdodau contractio.

**Rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru yn y Bil Caffael**

18. Gan fod y gwelliannau a drafodir yn yr LCM atodol hwn, sy'n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru, i gyd yn ymwneud â'r

darpariaethau a nodir mewn LCMau blaenorol, mae'r rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn yn y Bil yn parhau’n gymwys.

## Goblygiadau ariannol

20. Nodais y goblygiadau ariannol posibl sy'n gysylltiedig â diwygio caffael cyhoeddus yng Nghymru sy'n debygol o gael eu hysgwyddo gan Lywodraeth Cymru a’r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru yn fy LCM gwreiddiol a osodwyd ar 9 Mehefin 2022.

21. Ni fydd y gwelliannau arfaethedig yn gosod unrhyw oblygiadau ariannol ychwanegol ar Lywodraeth Cymru na’r Sector Cyhoeddus ehangach yng Nghymru.

## Casgliadau

22. Yn fy marn i, mae’n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU, gan mai'r Bil yw'r ffordd fwyaf effeithiol o ddod â'r darpariaethau hyn i rym. Mae fy swyddogion wedi gweithio'n agos gyda swyddogion yn Swyddfa'r Cabinet i sicrhau bod amcanion polisi Llywodraeth Cymru wedi'u cynnwys, ac rwyf o'r farn y byddai'r darpariaethau hyn yn darparu cyfundrefn gaffael symlach a thryloyw yng Nghymru.

23. Heblaw am y gwelliannau hyn, mae Senedd Cymru eisoes wedi trafod y Bil a phleidleisio arno. Yn fy marn i, mae’r gwelliannau a gynigir yn yr LCM atodol hwn yn rhai rhesymol. Rwy’n argymell felly bod cydsyniad yn cael ei roi i’r gwelliannau hyn.

**Rebecca Evans AS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**21 Mehefin 2023**

**Atodiad A – Crynodeb o'r Gwelliannau**

| Gwelliant | Rhif y Cymal/Atodlen | Disgrifiad o'r cymal |
|---|---|---|
| **Cadw Cofnodion** | Cymal newydd | Cadw cofnodion |
| | Cymal 97 | Gwybodaeth am gaffael |
| **Newid i Ddyfarniad Uniongyrchol** | Cymal 43 | Newid i Ddyfarniad Uniongyrchol |
| **Prif Ddangosyddion Perfformiad** | Cymal 52 | Prif ddangosyddion perfformiad |
| **Hawliau i gyflenwyr** | Cymal 62 | Rhestr Waharddiadau |
| **Diogelwch Cenedlaethol – gwaharddiadau oherwydd diogelwch cenedlaethol sy'n benodol i gyd-destun** | Cymalau 57, 59, 61, 62, 64, 65, 79 ac Atodlen 6 | 57 – Ystyr cyflenwyr sydd wedi'u gwahardd ac y gellir eu gwahardd<br>59 – Hysbysu cyflenwr ei fod wedi'i wahardd<br>61 – Ymchwiliadau o dan adran 60: adroddiadau<br>62 – Rhestr Waharddiadau<br>64 – Rhestr Waharddiadau: cais i ddileu<br>65 – Penderfyniadau gwahardd: apelio<br>79 – Terfynu contractau cyhoeddus: diogelwch cenedlaethol<br>Atodlen 6 – sail gwahardd gorfodol |
| **Diogelwch Cenedlaethol – Dyletswydd i gadw golwg** | Cymal 60 | Ymchwilio cyflenwyr: sail dros wahardd |
| **Gwelliannau eraill sy'n ymwneud â gwahardd a gwaharddiadau** | Cymalau 57 – 60, 64 a 112 | 57 – Ystyr cyflenwyr sydd wedi'u gwahardd ac y gellir eu gwahardd<br>58 – Ystyried a yw cyflenwr wedi'i wahardd neu os gellir ei wahardd<br>59 – Hysbysu cyflenwr ei fod wedi'i wahardd<br>60 - Ymchwilio cyflenwyr: sail dros wahardd<br>64 – Rhestr Waharddiadau: cais i ddileu<br>112 – Gweinidog y Goron: cyfyngiadau ar eu pwerau |

| Gwelliant | Rhif y Cymal/Atodlen | Disgrifiad o'r cymal |
|---|---|---|
| | | |